

AGOR Y DRWS I DDULLIAU DYSGU SAY SOMETHING IN WELSH

Mae'n gallu bod yn gur pen gwybod sut i annog mewnfudwyr (neu'r Cymry di-Gymraeg) i ddysgu'r Gymraeg.

Dach chi'n awgrymu dosbarth nos, ac maen nhw'n rhy brysur i'w fynychu - neu yn gweithio shifftiau ac yn methu gwneud y noson honno - neu yn waeth byth, maen nhw'n cychwyn, ac wedyn mae'r dosbarth yn dod i ben oherwydd diffyg niferoedd.

Neu dach chi'n awgrymu gwersi ar y We iddyn nhw, ond maen nhw'n drysu o ran sut i gael mynediad at y gwersi, neu sut i'w defnyddio nhw, ac yn y pen draw yn teimlo'n rhy unig ac ansicr i barhau.

Opsiwn newydd

Rwan mae modd cyfuno'r gorau o'r ddau fyd dysgu.

Mae SaySomethinginWelsh, y darparwr gwersi arlein poblogaidd, wedi creu fframwaith arbennig i helpu dysgwyr ddod yn siaradwyr hyderus - eu cwrs '6 Month Welsh Speaker'.

Mae wedi seilio ar eu cyrsiau preswyl dwys 'Brain Shock', sydd yn creu hyder real mewn dim ond 5 neu 10 diwrnod (ond yn costio £1000 i £2000).

Gweler www.saysomethingin.com/welsh/info/intensive am fideos o'r canlyniadau.

Mae eu cwrs 6 mis yn galluogi dysgwyr sydd yn fodlon ymrwymo 2 i 4 awr yr wythnos i efelychu canlyniadau y cyrsiau dwys. Maent yn cael ei arwain trwy'r broses gyda ebyst wythnosol, lle trafod penodol, a galwadau fideo grwp wythnosol - ac os nad ydyn nhw'n llwyddo i ddod yn siaradwyr hyderus erbyn diwedd y 6 mis, maen nhw'n cael ad-daliad llawn o ffi'r cwrs.

*** Erbyn yr haf, bydd y cwrs yn £100 am 6 mis - am rwan, dim ond £50 sydd angen (bydd yn codi i £60 ym mis Mawrth, £70 ym mis Ebrill, ayyb).

Am fwy o wybodaeth, gweler:

<https://www.saysomethingin.com/welsh/info/6mws>

EWCH AMDANI:

DEWCH YN GYFARWYDD A'R CWRS A CHEFNOGWCH RHYWUN I DDYSGU CYMRAEG GYDA SAYSOMETHININGWELSH